

Dinas a Sir Abertawe

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 2019 - 2020

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei wneud o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) sy'n gymwys ar gyfer taliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

1. Cyflog Sylfaenol

- 1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.
- 1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y penderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- 1.3 Pan fydd cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef i gael y Cyflog Sylfaenol ar sail pro-rata.
- 1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig

- 2.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael eu talu Uwch-gyflog fel y nodir yn **Atodlen 1**.
- 2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd y cyfraddau Uwch-gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel a bennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- 2.3 Dim ond un Uwch-gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.
- 2.4 Ni ellir talu Uwch-gyflog a Chyflog Dinesig i Aelod o'r Awdurdod.
- 2.5 Mae pob Uwch-gyflog a Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.
- 2.6 Ni chaiff Cyflog Uwch ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys swydd Uwch-gyflog dros dro i gyflenwi ar gyfer absenoldeb teuluol y deiliad swydd a benodwyd.
- 2.7 Ni all Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Uwch-gyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae ef wedi cael ei enwebu iddynt.
- 2.8 Pan fydd tymor Aelod sy'n derbyn Uwch-gyflog neu Gyflog Dinesig yn dechrau neu'n gorffen y tu allan i ddechrau neu ddiwedd y flwyddyn arferol, bydd ei hawl ef i Gyflog ar sail pro-rata.

3. Penderfyniad i Beidio â Derbyn y Lwfans

- 3.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod, yn bersonol ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

4. Atal Aelod

- 4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, mae rhan y Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef yn cael ei atal yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).
- 4.2 Pan fydd Aelod sy'n derbyn Uwch-gyflog yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Uwch-gyflog i'r Aelod drwy gydol cyfnod yr ataliad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud yn unig ag elfen chyfrifoldeb penodol y taliad, gall yr aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

- 5.1 Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:
- (a) wedi'i h/atal neu ei h/atal dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod/Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 Deddf 2000 neu â rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
 - (b) wedi rhoi'r gorau i fod yn Aelod o'r Awdurdod neu'r Aelod Cyfetholedig
 - (c) neu mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol i gyfryw ran y lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath gael ei ad-dalu.

6. Taliadau

- 6.1 Bydd taliadau'r holl lwfansau yn cael eu gwneud gan y Prif Swyddog Cyllid trwy gredyd banc uniongyrchol mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl flynyddol yr Aelod yn fisol.
- 6.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy nag y mae ganddo hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd y bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei ad-dalu.
- 6.3 Mae'r holl daliadau yn destun y dreth briodol a'r didyniadau Yswiriant Gwladol.

7. Ad-dalu Costau Gofal

- 7.1 Bydd costau gofal yn cael eu had-dalu i Aelod neu Aelod Cyfetholedig sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion dibynnol, neu ofynion gofal personol, ar yr amod bod yr Aelod yn ysgwyddo costau yn sgil darparu'r cyfryw ofal wrth ymgymryd â dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor.
- 7.2 Mae Ad-delu Costau Gofal yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n 15 oed neu'n iau a phobl eraill y mae'r Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig yn gallu dangos bod angen gofal arnynt. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig mwy nag un dibynnydd caiff yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos angen i wneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.
- 7.3 Gall aelodau cymwys wneud cais am Ad-daliad Costau Gofal ar gyfer costau gwirioneddol gyda derbynneb hyd at uchafswm o ddim mwy na'r gost a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn **Atodlen 1**. Dylai'r holl hawliadau am Ad-daliad Costau Gofal gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd gan roi manylion amserau, dyddiadau a rhesymau dros hawlio. Mae'n ofynnol cyflwyno derbynebau ar gyfer trefniadau gofal anffurfiol a ffurfiol.

8. Absenoldeb Teuluol

- 8.1 Mae hawl gan Aelodau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol. Os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir, mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.
- 8.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol.
- 8.3 Petai deiliad Uwch-gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol byddant yn gallu parhau i dderbyn eu cyflog uwch drwy gydol yr absenoldeb.
- 8.4 Os bydd yr awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol i gael eilydd i ddirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol y deiliad Uwch-gyflog, bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i dderbyn Uwch-gyflog hefyd os yw'r awdurdod yn penderfynu gwneud hynny.
- 8.5 Os bydd y taliad i'r eilydd yn achosi'r awdurdod i dorri'r 'cap' ar ei nifer uchaf o Uwch-gyflogau, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu am gyfnod gwaith yr eilydd.

9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig

- 9.1 Rhaid i ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) gael ei thalu i aelodau cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.
- 9.2 Dewisol - Bydd taliadau Aelodau Cyfetholedig yn cael eu capio ar uchafswm o **20** niwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gall unigolyn cael eu cyfethol iddo.

- 9.3 Bydd taliadau'n ystyried amser teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).
- 9.4 Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn.
- 9.5 Gall y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd benderfynu o flaen llaw a yw cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer diwrnod llawn a bydd y ffi'n cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben cyn mewn llai na phedair awr.
- 9.6 Mae cyfarfod hanner diwrnod yn cael ei ddiffinio fel hyd at 4 awr.
- 9.7 Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel dros 4 awr.
- 9.8 Mae'r ffi diwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.
- 9.9 Mae'r ffi diwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio, fel a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.

10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

10.1 Egwyddorion Cyffredinol

- 10.2 Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar gyfer busnes yr Awdurdod sy'n 'ddyletswyddau cymeradwy' fel a nodir yn **Atodlen 2**. Lle bo aelodau'n teithio ar gyfer busnes yr Awdurdod, disgwylir iddynt deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-efeithiol. Wrth asesu cost-efeithiolrwydd bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i amser teithio. Gall cais costau gan Aelod nad yw'n teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-efeithiol gael ei leihau gan y swm priodol.
- 10.3 Lle'n bosibl dylai Aelodau rannu cludiant.
- 10.4 Dylai'r pellter a hawlir am filltiroedd fod am y daith fyrraf resymol ar y ffordd o'r man ymadael i'r pwynt lle mae'r ddyletswydd yn cael ei pherfformio, ac yn yr un modd o'r man dyletswydd i'r lle ddychwelyd.
- 10.5 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- 10.6 Pan fydd Aelod yn cael ei h/atal yn llwyr neu'n rhannol o'i ch/gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfans teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo mewn perthynas â'r cyfnod y mae e'n cael ei atal gael ei gadw gan yr Awdurdod.

11. Teithio mewn Cerbyd Personol

- 11.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu mai'r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy fydd y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal yn ogystal ag unrhyw atodiad teithwyr.
- 11.2 Mae'r cyfraddau milltired ar gyfer cerbydau preifat fel a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.
- 11.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio ei g/cherbyd preifat ar gyfer dyletswyddau cymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

12. Teithio ar Gludiant Cyhoeddus

12.1 Taith Trên/Bws

Oni bai bod caniatâd arbennig wedi'i roi, bydd pob tocyn a brynir yn docyn ail-ddosbarth.

Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn prynu tocynnau bws a thrên gofynnol i Aelodau cyn y teithiau. Yn yr achos annhebygol bod angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, bydd y taliad yn cael ei ad-dalu ar ôl cynhyrchu'r tocyn a ddefnyddiwyd a/neu dderbynneb.

12.2 Costau Tacsï

Bydd costau tacsï ond yn cael eu had-dalu lle mae eu defnydd wedi eu caniatáu ar gyfer achosion brys, lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu mae gan Aelod angen personol penodol. Rhoddir ad-daliad ar ôl cael derbynneb yn unig.

12.3 Costau Teithio Awyr

Caniateir teithio mewn awyren os mai dyma'r dull mwyaf cost effeithiol o deithio. Caniatâd Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr perthnasol sydd ei angen a bydd tocynnau yn cael eu prynu gan y Gwasanaethau Democrataidd.

12.4 Teithio Dramor

Bydd teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod yn cael ei ganiatáu gan y Prif Weithredwr yn unig. Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu teithio a llety.

12.5 Costau Teithio Eraill

Bydd hawl gan Aelodau i gael ad-daliad ffioedd tollau, ffioedd parcio, garejis dros nos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithio angenrheidiol. Rhoddir ad-daliad ar ôl cael derbynneb yn unig.

13. Llety Dros Nos

- 13.1 Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os yw'r lleoliad yn bell y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr perthnasol.
- 13.2 Bydd llety dros nos yn cael ei drefnu gan y Gwasanaethau Democrataidd. Lle bynnag y bo modd, bydd y llety dros nos yn cael ei dalu ymlaen llaw neu ei anfonebu.
- 13.3 Bydd archebu uniongyrchol o lety dros nos gan Aelod yn cael ei ganiatáu mewn achos o argyfwng yn unig. Rhoddir ad-daliad ar ôl cael derbynneb yn unig a bydd ar lefel a ystyrir yn rhesymol ac nid yn fwy na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

14 Lwfans Cynhaliaeth

- 14.1 Mae'r gyfradd cynhaliaeth diwrnod ar gyfer costau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brechwast pan na ddarperir fel rhan o lety dros nos) yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd sy'n berthnasol, gan ddarparu os yw cais o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynebaw)
- 14.2 Nid oes darpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol.

15. Ceisiadau a Thaliadau

- 15.1 Rhaid i gais am lwfansau teithio a chynhaliaeth gael ei wneud yn ysgrifenedig erbyn 5^{ed} pob mis neu'r diwrnod gwaith blaenorol os yw'n digwydd ar ddydd Sadwrn, dydd Sul neu Wyl y Banc a rhaid anfon y derbynebaw perthnasol. Mae'n rhaid gwneud hawliadau o fewn 3 mis i'r digwyddiad. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cadw'r hawl i hepgor y cyfyngiad hwn.
- 15.2 Bydd lwfansau yn cael eu talu gan y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol trwy gredyd banc uniongyrchol.

16. Pensiynau

- 16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

17. Cefnogi gwaith Aelodau'r Awdurdod

- 17.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn disgwyl i Aelodau gael digon o gymorth i ymgymryd â'u dyletswyddau a bod y cymorth a ddarperir yn ystyried anghenion penodol Aelodau unigryw. Mae'n ofynnol i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod adolygu lefel y cymorth a ddarperir i Aelodau a dylai gyflwyno cynigion ar gyfer cymorth rhesymol i'r cyngor llawn.
- 17.2 Dylid rhoi cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i Aelodau etholedig ac Aelodau Cyfetholedig i roi iddynt fynediad electronig at wybodaeth briodol.

17.3 Dylid rhoi cymorth o'r fath heb unrhyw gost i unrhyw Aelod. Ni ddylid didynnu o dâl Aelodau fel cyfraniad at gost cymorth y mae'r Awdurdod wedi penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn i Aelodau weithredu'n effeithiol a neu'n effeithlon.

18. Cydymffurfiaeth

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel mewn perthynas â'r monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i aelodau ac aelodau cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

Atgoffir yr Aelodau bod ceisiadau treuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.

Atodlen 1

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol 2019-2020

Aelodau Sydd Â'r Hawl I Gyflog Sylfaenol		Swm Blynnyddol Y Cyflog Sylfaenol
Yr aelodau etholedig canlynol o'r awdurdod a enwir:		£13,868
Y Cyngorydd	Y Cyngorydd	Y Cyngorydd
C Anderson	P R Hood-Williams	D Phillips
J E Burtonshaw	B Hopkins	C Philpott
S E Crouch	L James	C Richards
J P Curtice	O G James	K M Roberts
N J Davies	Y Jardine	B J Rowlands
A M Day	J Jones	P B Smith
P Downing	L R Jones	G Sullivan
C R Doyle	P Jones	M Sykes
M Durke	S M Jones	G Tanner
W Evans	E T Kirchner	D W W Thomas
E W Fitzgerald	M A Langstone	L G Thomas
S J Gallagher	M B Lewis	W G Thomas
F M Gordon	R D Lewis	L J Tyler-Lloyd
K M Griffiths	W G Lewis	G Walker
J A Hale	I E Mann	L Walton
D W Helliwell	P N May	M White
T J Hennegan	H M Morris	

	Hawliadau Uwch-Gyflogau (yn cynnwys cyflog sylfaenol)	Swm Blynyddol Yr Uwch-Gyflog	
	Rôl	Aelod	
1.	Arweinydd ac Aelod y Cabinet – Economi a Strategaeth	R C Stewart	£54,100
2.	Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet – Trawsnewid Busnes a Pherfformiad	C E Lloyd	£38,100
3.	Aelod y Cabinet – Gofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda	M C Child	£33,100
4.	Aelod y Cabinet – Buddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth	R Francis-Davies	£33,100
5.	Aelod y Cabinet – Gwasanaethau Plant *	E J King / S Pritchard	£33,100
6.	Aelod y Cabinet – Rheoli'r Amgylchedd ac Isadeiledd	M Thomas	£33,100
7.	Aelod y Cabinet – Tai ac Ynni	A S Lewis	£33,100
8.	Aelod y Cabinet – Cymunedau Gwell *	A Pugh / A H Stevens	£33,100
9.	Aelod y Cabinet – Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau	J A Raynor	£33,100
10.	Aelod y Cabinet – Cyflwyno	D H Hopkins	£33,100
11.	Cadeirydd – Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl	C R Evans	£22,568
12.	Cadeirydd - Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi	M Sherwood	£22,568
13.	Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau	R V Smith	£22,568
14.	Cadeirydd - Pwyllgor Datblygu Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid	L S Gibbard	£22,568
15.	Cadeirydd - Pwyllgor Datblygu Polisi Economi ac Isadeiledd	V M Evans	£22,568
16.	Cadeirydd – Pwyllgor Cynllunio	P Lloyd	£22,568
17.	Cadeirydd – Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol	P M Matthews	£22,568
18.	Cadeirydd – Pwyllgor y Rhaglen Graffu	M H Jones	£22,568
19.	Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf	C A Holley	£22,568

Gall uchafswm o 19 o Uwch-gyflogau gael eu talu ar gyfer Dinas a Sir Abertawe ac nid yw wedi rhagori ar hyn.

* Mewn cysylltiad ag Aelodau'r Cabinet dros Gymunedau Gwell a Gwasanaethau Plant, sylwer bod y rhain yn seiliedig ar swyddi a rennir ac mai un Aelod Cabinet yn unig ar gyfer pob portffolio fydd yn cael ei dalu ar sail rhaglen dreigl 3 mis, ac o ganlyniad ceir 10 Aelod Cabinet yn unig ar unrhyw adeg benodol.

Hawl I Gyflogau Dinesig		Swm Blynnyddol Y Cyflog Dinesig
Rôl	Aelod	
Arweinydd Dinesig (Maer/Cadeirydd)	P M Black	£22,568
Dirprwy Arweinydd Dinesig (Dirprwy Arglwydd Faer)	M C Child	£0

Hawl Fel Aelodau Cyfetholedig Statudol		Swm Lwfans Aelod Cyfetholedig
Rôl	Aelod	
Cadeirydd Pwyllgor Safonau	Jill Burgess	£256 Ffi Ddyddiol £128 Ffi ½ Diwrnod
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio	Paula O'Connor	£256 Ffi Ddyddiol £128 Ffi ½ Diwrnod
Aelodau Cyfetholedig Statudol – Pwyllgor Safonau, Craffu Addysg, Pwyllgor Archwilio, Craffu Trosedd ac Anrhefn	<u>Pwyllgor Safonau:</u> <ul style="list-style-type: none"> • Philip Crayford • Gareth Evans • Michaela Jones • Mike Lewis • Margaret Williams <u>Pwyllgor y Rhaglen Graffu</u> <ul style="list-style-type: none"> • David Anderson-Thomas • John Meredith • Alexander Roberts 	£198 Ffi Ddyddiol £99 Ffi ½ Diwrnod
Aelodau Cyfetholedig Statudol – aelodau arferol o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau mewn Cynghorau Tref a Chymuned	Dim	£226 Ffi Ddyddiol £113 Ffi ½ Diwrnod

Ad-dalu costau gofal	
Pob Aelod	Hyd at uchafswm o £403 y mis

Cymorth Aelodau – beth a ddarperir yn nhermau ffôn, y rhyngwyd neu e-bost (gweler Penderfyniad 6)	Y gefnogaeth a ddarperir*
Cymorth ffôn i Aelodau Gweithredol	Gall Aelodau'r Cabinet, yr Aelod Llywyddol ac Arweinydd y Brif Wrthblaid hawlio lwfans ffôn symudol gwerth £25 y mis. Yn ogystal â hyn, gall yr holl gynghorwyr hawlio lwfans ffôn gwerth £10 y mis. Darperir ffonau yn swyddfeydd aelodau'r Cabinet
Cymorth ffôn i Gadeiryddion Pwyllgorau	Gall yr holl gynghorwyr hawlio lwfans ffôn gwerth £10 y mis. Darperir ffonau yn holl ystafelloedd y pleidiau gwleidyddol
Cymorth ffôn i bob Aelod Arall	Gall yr holl gynghorwyr hawlio lwfans ffôn gwerth £10 y mis. Darperir ffonau yn holl ystafelloedd y pleidiau gwleidyddol
Mynediad at e-bost i Aelodau Gweithredol	Darperir cyfeiriad e-bost abertawe.gov.uk i'r holl gynghorwyr. Darperir cyfrifiaduron sydd â mynediad at e-byst yn swyddfeydd aelodau'r Cabinet
Mynediad at e-bost i Gadeiryddion Pwyllgorau	Darperir cyfeiriad e-bost abertawe.gov.uk i'r holl gynghorwyr. Darperir cyfrifiaduron sydd â mynediad at e-byst yn holl ystafelloedd y pleidiau gwleidyddol
Mynediad at e-bost i bob Aelod arall	Darperir cyfeiriad e-bost abertawe.gov.uk i'r holl gynghorwyr. Darperir cyfrifiaduron sydd â mynediad at e-byst yn holl ystafelloedd y pleidiau gwleidyddol
Cymorth Rhyngwyd i Aelodau Gweithredol	Gall yr holl gynghorwyr hawlio lwfans data gwerth £15 y mis. Darperir cyfrifiaduron sydd â mynediad at y rhyngwyd yn swyddfeydd aelodau'r Cabinet
Cymorth Rhyngwyd i Gadeiryddion Pwyllgorau	Gall yr holl gynghorwyr hawlio lwfans data gwerth £15 y mis. Darperir cyfrifiaduron sydd â mynediad at y rhyngwyd yn holl ystafelloedd y pleidiau gwleidyddol
Cymorth Rhyngwyd i bob Aelod arall	Gall yr holl gynghorwyr hawlio lwfans data gwerth £15 y mis. Darperir cyfrifiaduron sydd â mynediad at y rhyngwyd yn holl ystafelloedd y pleidiau gwleidyddol
Cefnogaeth ffonau a data i aelodau cyfetholedig	Gall aelodau cyfetholedig hawlio lwfans data gwerth £3 y mis a lwfans ffôn gwerth £2 y mis

* Gweler lwfansau TGCh Cynghorwyr – Adroddiad ar gyfer mis Mai 2017 a'r Tu Hwnt a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 15 Tachwedd 2018:
<http://democracy.swansea.gov.uk/documents/s51822/CllrsICTAllowancesPolicy.pdf?LLL=->

Yn ogystal â hyn, gall cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig hawlio'r symiau lwfans TGCh canlynol:

Symiau Lwfans TGCh Cynghorwyr/Aelodau Cyfetholedig	Cynghorydd	Aelod Cyfetholedig
Yn y flwyddyn sy'n dilyn ethol/penodi'r Cynghorydd/Aelod Cyfetholedig yn syth	£1,008	£201.60
Bob blwyddyn wedi hynny (Gall Cynghorydd gymryd hwn ymlaen llaw o Flwyddyn 2 h.y £800 (£200 x 4 blynedd, cyfnod y swydd sy'n weddill). Ni fydd yr awdurdod yn talu unrhyw arian ychwanegol tan ar ôl yr etholiad Llywodraeth Leol nesaf (a drefnir ar gyfer mis Mai 2022 ar hyn o bryd)	£200 y flwyddyn (£800) dros y cyfnod.	Dd/b
Bob blwyddyn wedi hynny (Gall Aelod Cyfetholedig gymryd hwn ymlaen llaw o Flwyddyn 2 h.y. £240 neu £160 (£40 x 6 blynedd/£40 x 4 blynedd, cyfnod y swydd sy'n weddill).	Dd/b	£40 y flwyddyn (£240 neu £160) dros y cyfnod.

Sylwer:

- 1) Cyfanswm **elfen Cynghorwyr** y lwfans TGCh Cynghorwyr/Aelodau Cyfetholedig dros gyfnod o 5 mlynedd yw £1,808. Gellir gwario'r swm hwn ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod 5 mlynedd ar yr amod bod lwfansau'n cael eu hawlio gan ddefnyddio Ffurflen Hawlio Lwfans TGCh Cynghorwyr/Aelodau Cyfetholedig, a chyda derbynebau perthnasol.
- 2) **Cynghorwyr yn unig.** Rhaid i unrhyw wariant dros £200 yn ystod blwyddyn derfynol y cyfnod yn y swydd gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd ar y cyd â'r Prif Swyddog Trawsnewid. Efallai byddant yn edrych ar atebion dros dro megis darparu dyfeisiau TGCh sy'n eiddo i'r awdurdod.
- 3) Cyfansymiau **elfen Aelodau Cyfetholedig** y lwfans TGCh Cynghorwyr/Aelodau Cyfetholedig dros gyfnod o 4 blynedd a chyfnod o 6 blynedd yw £361.60 a £441.60 yn ôl eu trefn. Gellir gwario'r swm hwn ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod 4 i 6 blynedd ar yr amod yr hawlir lwfansau gan ddefnyddio Ffurflen Gais Lwfans TGCh Aelodau Cyfetholedig a chyda derbynebau perthnasol;
- 4) **Aelodau Cyfetholedig yn unig.** Rhaid i unrhyw wariant dros £40 yn ystod blwyddyn olaf cyfnod yn y swydd gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd ar y cyd â'r Prif Swyddog Trawsnewid. Efallai byddant yn edrych ar atebion dros dro megis darparu dyfeisiau TGCh sy'n eiddo i'r awdurdod.

Atodlen 2

Dyletswyddau cymeradwy:

- presenoldeb mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor o'r fath gorff;
- presenoldeb mewn cyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod
- presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall sydd wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gydbwyllgor o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill
- dyletswydd a ymgwymerir at ddiben neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Cabinet;
- dyletswydd a ymgwymerir yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod neu Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;
- dyletswydd a ymgwymerir mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth o'r Awdurdod sy'n rhoi'r grym neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod archwilio neu awdurdodi archwilio adeiladau;
- presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Gabinet
- y dyletswyddau canlynol sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor:
 - Nid yw Dinas a Sir Abertawe wedi awdurdodi dyletswyddau ychwanegol

Atodlen 3

Costau Milltiroedd

Cerbydau modur o bob maint Hyd at 10,000 milltir Dros 10,000 milltir	45 ceiniog y filltir 25 ceiniog y filltir
Beiciau modur preifat Beiciau	24 ceiniog y filltir 20 ceiniog y filltir
Tâl ychwanegol am deithwyr eraill	05 ceiniog y filltir

Lwfans Cynhaliaeth

Y gyfradd gynhaliaeth diwrnod yw hyd at uchafswm o £28 ac yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd, os berthnasol, ac os y'u cefnogir gan dderbynebau.

Ni chaniateir ad-daliad am ddiodydd alcoholig.

Llety dros nos

Uchafswm y lwfansau ar gyfer aros dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer manau eraill. Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd gymeradwy.

Atodlen 4

Cydymffurfiaeth

- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig o ran cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau erbyn 30 Medi fan bellaf yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Er budd tryloywder bydd hyn yn cynnwys tâl o bob penodiad gwasanaeth cyhoeddus sydd gan aelodau etholedig.
- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor ddatganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swyddi Uwch-gyflog, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau disgwylidig.
- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor yn flynyddol y Rhestr o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.
- Bydd yr awdurdod yn anfon copi o'r Rhestr i Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.
- Bydd yr awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb aelodau/aelodau cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r cyngor, cabinet a phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae aelod/aelodau cyfetholedig yn cyflwyno cais am ad-daliad amdanynt.
- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor yr adroddiadau blynyddol a baratoir gan yr aelodau.
- Pan fydd yr awdurdod yn cytuno i dalu am eilydd am gyfnod absenoldeb teuluol, bydd yn rhoi gwybod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad gyda'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad.